Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gynradd Pennal
# Pennal
# Machynlleth
# Gwynedd
# SY20 9JT

**Dyddiad yr arolygiad: Mehefin 2011**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW

neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2011: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

## Cyd-destun

Daw’r disgyblion tair i 11 oed i’r ysgol fach hon yn bennaf o bentref Pennal a’r ardal wledig oddi amgylch, sydd rhyw bum milltir o dref Machynlleth yn awdurdod lleol Gwynedd.

Dau ddeg a dau o ddisgyblion o oedran ysgol gorfodol sydd yn yr ysgol ac wyth disgybl tair a phedair oed.  Mae hyn yn dangos lleihad o yn agos i 25% yn nifer y disgyblion ers yr arolygiad diwethaf.  Mae’r disgyblion yn cael eu haddysgu mewn dau ddosbarth gan ddau athro llawn amser.  Yr ysgol sydd â’r pedwerydd lefel o her uchaf o fewn y teulu o ysgolion y perthyn iddi.  Nid oes yr un disgybl wedi bod â’r hawl i gael prydau ysgol am ddim am y ddwy flynedd ddiwethaf.  Mae hyn yn sylweddol is na’r canrannau sirol a chenedlaethol.

Derbynia 18% o’r disgyblion gymorth ychwanegol ar gyfer anghenion addysgol arbennig.  Mae’r ffigwr hwn yn is na’r cyfartaledd cenedlaethol. Mae tri disgybl ar ddatganiad ac un ar gam gweithredu gan yr ysgol a mwy.  Ni chofnodwyd unrhyw waharddiadau, dros dro na pharhaol, yn y flwyddyn cyn yr arolygiad.

Daw 14% o’r disgyblion o gartrefi lle mae’r Gymraeg yw prif iaith yr aelwyd.  Mae bron y cyfan o’r disgyblion o gefndir ethnig Gwyn Prydeinig.

Mae’r pennaeth dros dro wedi bod yn ei swydd ers yn agos i dair blynedd.  Mae cynlluniau ar droed i ffedereiddio’r ysgol efo ysgol Dyffryn Dulas.

Y gyllideb ysgol unigol yn 2010-2011 fesul disgybl ar gyfer Ysgol Gynradd Pennal yw £4,153, sy’n cymharu gydag uchafswm o £8,442 ac isafswm o £2,717 ar gyfer ysgolion cynradd yng Ngwynedd. Yr ysgol sydd â’r gyllideb fesul disgybl 29ain uchaf o'r 103 ysgol gynradd yng Ngwynedd.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Da** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad cyfredol yr ysgol yn dda oherwydd bod:

- y canran o ddisgyblion sy'n cyrraedd y lefelau disgwyliedig yn y ddau gyfnod allweddol dros gyfnod yn cymharu'n ffafriol ag ysgolion tebyg;
- medrau meddwl a datrys problemau'r disgyblion yn dda iawn yng nghyfnod allweddol 2;
- cyflawniad mewn dysgu a chynnydd y disgyblion mewn gwersi ar draws yr ysgol yn gyffredinol dda;
- disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd da; a bod
- y disgyblion yn hynod gwrtais, yn cydweithio'n effeithiol ac yn ymddwyn yn dda.

### Rhagolygon gwella

Mae'r rhagolygon ar gyfer gwella yn dda oherwydd bod:

- y broses hunan arfarnu yn drylwyr ac yn bwydo'r cynllun datblygu ysgol yn bwrpasol;
- yr ysgol wedi gwneud cynnydd da mewn nifer o feysydd yn ystod y cyfnod diweddar; a bod
- y cydweithio gydag Ysgol Dyffryn Dulas yn datblygu'n effeithiol ac wedi gwella ansawdd y ddarpariaeth mewn nifer o feysydd.

## Argymhellion

Er mwyn gwella, dylai'r ysgol:

A1 gwella'r bartneriaeth strategol gyda'r ysgol uwchradd i sicrhau ansawdd a dealltwriaeth ar y cyd o safonau;

A2 sicrhau bod y ddarpariaeth yn diwallu anghenion pob disgybl yn gyson; a

A3 miniogi rôl y llywodraethwyr fel cyfeillion beirniadol.

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd y cynnydd yn erbyn yr argymhellion yn cael ei fonitro gan yr awdurdod addysg lleol.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Mae canlyniadau asesiadau sylfaen y plant wrth ddechrau yn yr ysgol yn dangos yn gyson bod y plant â medrau uwch na'r disgwyl ar gyfer rhai o'u hoed. Ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen, mae safonau yn yr holl fedrau, yn arbennig medrau cyfathrebu llafar, yn dangos cynnydd priodol da.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn medru cyfathrebu yn effeithiol yn y Gymraeg ar lafar erbyn diwedd cyfnod allweddol 1. Mae eu medrau darllen ac ysgrifennu hefyd yn datblygu 'n briodol. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae safonau medrau llythrennedd o ran llafar a darllen yn dda yn Saesneg a'r Gymraeg. Defnyddia'r disgyblion iaith yn bwrpasol wrth drin a thrafod a llwyddant yn dda i ddarllen mewn un iaith a defnyddio'r wybodaeth yn yr iaith arall. Mae mwyafrif yn darllen yn ystyrlon yn y ddwy iaith ac mae safonau ysgrifennu yn y ddwy iaith erbyn diwedd Blwyddyn 6 yn briodol.

Mae cyflawniad mewn dysgu a chynnydd y disgyblion mewn gwersi ar draws yr ysgol yn gyffredinol dda. Gall llawer o ddisgyblion alw i gof dysgu blaenorol i bwrpas gan lwyddo i adeiladu arno yn briodol. Mae bron pob disgybl yn cydweithio yn dda ac yn ymateb yn briodol i'r tasgau a osodir ac i'r cwestiynau a holir gan yr athrawon. Erbyn diwedd Blwyddyn 6 mae medrau meddwl, datrys problemau a gallu'r disgyblion i weithio'n annibynnol wedi datblygu'n dda iawn.

Mae ymwybyddiaeth y disgyblion o hanes cyfoethog a chwedlau eu hardal a Chymru yn dda ac yn meithrin balchder yn eu bro.

Mae perfformiad disgyblion yn gyffredinol dda ac yn cymharu'n ffafriol iawn ag ysgolion eraill o fewn y teulu yn y ddau gyfnod allweddol. Mewn tair o'r pedair blynedd ddiwethaf, mae'r disgyblion wedi llwyddo i gyrraedd y lefelau disgwyliedig yn y Gymraeg (a Saesneg yng nghyfnod allweddol 2), mathemateg a gwyddoniaeth. Mae hyn yn sylweddol uwch na chyfartaledd y teulu o ysgolion a chyfartaledd Cymru ac yn gosod yr ysgol yn 25% uchaf o ysgolion o ran lefelau prydau ysgol am ddim.

Yn gyffredinol ,mae'r canran o ddisgyblion sy'n cyrraedd lefel 3, yng nghyfnod allweddol un, yn y tri phwnc, wedi bod yn uwch na chyfataledd y teulu tros y pedair blynedd ddiwethaf.

Mae'r canran o ddisgyblion sy'n cyrraedd lefel 5 ar ddiwedd cyfnod allweddol 2, yn uwch na'r disgwyl ym mathemateg , ond yn is na chyfartaleddau'r teulu a Chymru yng ngwyddoniaeth, Cymraeg a Saesneg.

Dros dair o'r pedair blynedd ddiwethaf nid oes gwahaniaeth arwyddocaol rhwng perfformiad bechgyn a merched. Yn gyffredinol, mae disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd da.

**Lles: Da**

Mae pob disgybl yn teimlo'n ddiogel iawn a hapus yn yr ysgol ac yn gwybod at bwy i droi am gymorth a chyngor. Maent yn hynod gwrtais, yn cydweithio'n effeithiol ac yn ymddwyn yn dda. O ganlyniad, mae datblygiad personol a chymdeithasol a diwylliannol bron pob plentyn yn dda.

Mae gan bob plentyn ymwybyddiaeth briodol o'r angen i gadw'n heini ac i fwyta'n iach. Manteisia canran uchel o'r disgyblion ar weithgareddau ffitrwydd, chwaraeon a gweithgareddau perthnasol mewn clybiau ar ôl ysgol. Maent yn elwa o'r cyswllt gyda sefydliadau ac unigolion er mwyn atgyfnerthu eu gwybodaeth o'r adral leol, a meithrin medrau cymdeithasol a medau bywyd.

Yn gyffredinol, mae lefelau presenoldeb y disgyblion yn dda. Mae prydlondeb y disgyblion yn dda.

Cyfranna'r cyngor ysgol yn bwrpasol iawn i brosesau gwneud penderfyniadau o fewn yr ysgol. Mae aelodau'r cyngor yn ymateb yn gydwybodol tu hwnt i'w cyfrifoldebau ac yn ymwybodol iawn o faterion gwyrdd. O ganlyniad, mae gan y disgyblion sylfeini da ar gyfer bywyd a gwaith y tu allan i'r ysgol.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Darpara'r ysgol ystod eang a chytbwys o brofiadau sy'n ymateb yn dda i anghenion y disgyblion. Mae'r cynllunio yn rhoi sylw dyledus i ddatblygu'r medrau. O ganlyniad, mae'r disgyblion yn cael nifer o brofiadau pwrpasol sy'n cael effaith gadarnhaol ar safonau. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau meddwl a datrys problemau yn gryfder ac yn hybu annibyniaeth y disgyblion yn dda iawn.

Mae'r cyfleoedd a ddarperir i ddisgyblion ysgrifennu'n estynedig yn bynciol yn y Gymraeg a'r Saesneg bellach yn briodol.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer y Cwricwlwm Cymreig yn dda. Mae cyfraniad ymwelwyr megis llenorion yn ennyn a datblygu diddordeb a dealltwriaeth y disgyblion yn dda.

Caiff y ddarpariaeth ar gyfer dinasyddiaeth fyd eang sylw priodol o fewn yr ysgol. Er enghraifft, mae'r profiad o fabwysiadu plentyn o wlad sy'n datblygu yn ymestyn dealltwriaeth y plant o anghenion rhai llai ffodus yn dda. Cyfoethogir y ddarpariaeth ar gyfer cynaliadwyedd trwy brosiect ar y cyd â Choed Tiroedd Dyfi.

**Addysgu: Da**

Defnyddia'r athrawon ystod dda o ddulliau addysgu. Mae gwybodaeth bynciol yr athrawon yn gadarn ac maent yn cynllunio ystod o weithgareddau sy'n ysgogi diddordeb ac ymrwymiad y disgyblion. Trwy gwestiynu effeithiol mae'r athrawon yn herio'r disgyblion i feddwl. Yn gyffredinol, mae'r addysgu yn darparu gwaith gwahaniaethol priodol, fodd bynnag nid yw'n diwallu anghenion pob disgybl yn ddigon cyson.

Mae ethos cefnogol ac awyrgylch weithgar ym mhob dosbarth. Mae'r gefnogaeth i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn dda a gwneir defnydd effeithiol o gymhorthyddion i ateb gofynion penodol disgyblion.

Ar y cyfan, mae strategaethau asesu ar gyfer dysgu yn datblygu'n briodol ar draws yr ysgol. Mae nodau dysgu a meini prawf llwyddiant yn cael eu rhannu'n effeithiol gyda'r disgyblion. Erbyn i'r disgyblion gyrraedd cyfnod allweddol 2, mae'r athrawon yn sicrhau fod y disgyblion yn chwarae rhan weithredol yn y broses o asesu eu gwaith a gwaith eu cyfoedion. O ganlyniad, mae'r gwaith yn berthnasol iddynt ac mae ganddynt ddealltwriaeth dda o'r hyn sydd ei angen i wella.

Lle mae ansawdd y marcio yn dda, fe wneir sylwadau adeiladol, ond mewn rhai mannau, nid yw'r sylwadau'n ddigonol i arwain at welliant.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r ysgol yn gymuned gynhwysol, hapus a gofalgar. Ceir pwyslais dyledus ar addysg bersonol a chymdeithasol sydd yn cyfrannu'n effeithiol at les y disgyblion. Mae'r ysgol yn hyrwyddo bwyta'n iach a dulliau iachus o fyw yn dda.

Ar draws yr ysgol, mae profiadau dysgu yn cynnig cyfleoedd ysgogol i hyrwyddo datblygiad cymdeithasol, moesol, ysbrydol a diwylliannol y dysgwyr. Mae rhan weithredol y dysgwyr mewn gweithgareddau diwylliannol Cymreig a chymunedol yn dda.

Ceir perthynas waith agos ac effeithiol iawn gyda'r rhieni a'r gofalwyr ac mae'r ysgol yn ystyried eu safbwyntiau'n llawn. Mae holiaduron cyson i ddisgyblion a'r cyngor ysgol yn sicrhau y caiff y disgyblion lais yn y broses gwneud penderfyniadau.

Caiff gwaith yr ysgol ei gefnogi'n dda gan nifer o wasanaethau arbenigol a manteisir ar gyngor arbenigwyr pan fo'r angen.

Mae'r ysgol yn darparu cynhaliaeth addas ar gyfer plant ag anghenion dysgu ychwanegol ac mae'r ysgol yn cydweithio'n effeithiol a'r asiantaethau allanol i sicrhau cynnydd da. Mae'r disgyblion sydd ar ddatganiad yn derbyn cymorth priodol yn unol â gofynion eu datganiadau.

Mae gan y darparwr bolisi a gweithdrefnau priodol ar gyfer diogelu.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae staff yr ysgol yn llwyddo i greu ethos cymunedol, cartrefol sy'n hollol gynhwysol. Hyrwyddant gyfleoedd cyfartal a dealltwriaeth y disgyblion o amrywiaeth a diwylliannau eraill yn dda. Mae gan yr ysgol bolisi cydraddoldeb hiliol priodol.

Ar y cyfan, mae cyflwr adeiladau a thir yr ysgol yn dda. Mae'r ystafelloedd dysgu yn addas ac mae cyfleusterau priodol ar gyfer plant y Cyfnod Sylfaen. Er bod y neuadd yn fechan, gwna'r ysgol ddefnydd da ohoni. Trwy gydweithio gydag ysgol Dyffryn Dulas, sicrheir bod y disgyblion yn cael cyfleoedd gymnasteg a chwaraeon na fyddai'n bosibl fel arall. Mae deunyddiau dysgu ac arddangosfeydd o waith

disgyblion o ansawdd da ac yn cynnig amgylchedd ddysgu deniadol sy'n dathlu gwaith da a llwyddiannau'r disgyblion.

| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae'r pennaeth dros dro wedi datblygu gweledigaeth a gwerthoedd sydd yn cael eu cefnogi a'u hyrwyddo gan y llywodraethwyr a'r staff. Gosodir cyfeiriad clir i'r ysgol, ac mae'r ysgol wedi gwneud cynnydd da mewn nifer o feysydd yn ystod y cyfnod diweddar, er enghraifft y broses hunan arfarnu drylwyr a'r cynnydd yn ansawdd y ddarpariaeth oherwydd y cydweithio gydag ysgol Dyffryn Dulas.

Mae gan yr ysgol ystod eang o bolisïau rheolaethol a chwricwlaidd ac mae amserlen briodol wedi ei sefydlu ar gyfer eu hadolygu. Mae gan yr athrawon a staff ategol rolau clir sy'n cael eu cyflawni yn gyson dda.

Mae'r corff Llywodraethol yn cyfarfod yn rheolaidd ac yn trafod adroddiadau'r pennaeth yn drylwyr. Maent yn ymweld â'r ysgol fel rhan o'r broses hunan arfarnu ac yn arsylwi gwersi. Maent yn gynyddol yn meithrin eu dealltwriaeth o ddata'r ysgol a'r elfennau sydd angen i'r ysgol eu gwella. Ar hyn o bryd, nid oes ganddynt y wybodaeth lawn o ran targedau gwella i fedru herio'r ysgol yn ddigon miniog fel ffrind beirniadol.

Llwydda'r ysgol i roi sylw dyledus i flaenoriaethau cenedlaethol a lleol. Datblygir medrau meddwl y disgyblion yn dda iawn ar draws yr ysgol a rhoddir llais clir i'r disgyblion wrth benderfynu ar agweddau o waith yr ysgol. Mae'r cyd-weithio agos gydag Ysgol Dyffryn Dulas a'r camau at ffedereiddio ffurfiol yn mynd rhagddi yn llwyddiannus. Cefnogir y fenter ffedereiddio gan y corff llywodraethol.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae proses hunan arfarnu drylwyr gan yr ysgol sy'n bwydo'n bwrpasol i gynllun datblygu'r ysgol. Mae'r drefn yn cynnwys arfarnu safonau a'r ddarpariaeth ar draws y dosbarthiadau ar y cyd gydag Ysgol Dyffryn Dulas. Crëwyd adroddiad hunan arfarnu priodol sy'n ddarlun cywir o'r ysgol ar y cyfan. Mae'r ysgol yn cynnwys athrawon, y plant, rhieni a'r llywodraethwyr yn effeithiol iawn yn y broses hunan arfarnu.

Mae'r cynllun datblygu ysgol o ansawdd da ac yn cynnwys arfarniad o'r cynllun blaenorol a'r blaenoriaethau a ddaw i'r amlwg o'r broses hunan arfarnu. Mae'n olrhain y prif flaenoriaethau'r ysgol ar gyfer datblygu ac yn cynnwys manylion ynglŷn â'r bwriadau. Er hynny, nid yw'r targedau ym mhob achos yn ddigon meintiol ac o ganlyniad, nid yw'n hawdd i reolwyr fesur cynnydd.

Mae gan yr ysgol drefn briodol o reoli perfformiad sy'n cynnig cyfleoedd ar gyfer datblygiad proffesiynol parhaus. Mae'r rhwydweithio gydag ysgolion eraill a rhannu arfer broffesiynol yn datblygu'n effeithiol ac yn cyfoethogi'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion yr ysgol.

**Gweithio mewn partneriaeth:  Digonol**

Mae partneriaethau pwrpasol yn bodoli rhwng yr ysgol, llywodraethwyr, rhieni, y gymuned a'r awdurdod lleol.  Cyfranna'r partneriaethau yma yn effeithiol at gyfoethogi'r ddarpariaeth a gwella'r deilliannau er budd y disgyblion.  Mae rhieni'r ysgol yn gefnogol iawn ac yn datgan eu bod yn derbyn gwybodaeth gyson am gynnydd eu plant ac yn fodlon iawn â phob agwedd o fywyd yr ysgol.

Mae'r cydweithio gydag Ysgol Dyffryn Dulas yn datblygu'n effeithiol ac wedi codi hyder a gwella ansawdd y ddarpariaeth mewn nifer o feysydd.

Hyd yma, nid yw'r bartneriaeth gyda'r ysgol uwchradd a'r clwstwr wedi datblygu i sicrhau ansawdd a dealltwriaeth ar y cyd o safonau ar ddiwedd cyfnod allweddol 2.

**Rheoli adnoddau:  Da**

Mae lefelau staffio'r ysgol yn briodol ac yn sicrhau safonau da.  Mae'r athrawon yn cydweithio yn dda gyda'r cymorthyddion dosbarth.  Mae'r cymorthyddion yn cyflawni eu rôl yn effeithiol er mwyn sicrhau cefnogaeth briodol i'r disgyblion a gwnânt gyfraniad pwysig i waith a bywyd yr ysgol.

Defnyddia'r athrawon eu hamser cynllunio, paratoi ac asesu yn effeithlon, gyda hyn yn cael effaith cadarnhaol ar safon y cynllunio.  Defnyddir arbenigeddau staff Ysgol Dyffryn Dulas yn dda i gyfoethogi profiadau'r disgyblion.

Mae'r corff llywodraethol yn ofalus wrth gadw golwg ar y gyllideb.  Mae llywodraethwyr yn gwario yn unol â blaenoriaethau cynllun datblygu'r ysgol ac yn sicrhau nad oes gormod o arian wrth gefn.  Rheolir yr adnoddau addysgu yn dda.

Yn gyffredinol, o ystyried y defnydd a wneir o'r gyllideb i gynnal a chodi safonau, ynghyd ag  arweinyddiaeth a rheolaeth dda, mae'r ysgol yn cynnig gwerth da am arian.

## Atodiad 1

**Adroddiad boddhad rhanddeiliaid**

**Ymatebion i'r holiadur i rieni**

Derbyniwyd 7 o ymatebion i'r holebion gan rieni:

roeddynt yn unfrydol:

- bod yr ysgol yn cael ei rhedeg yn dda ac yn fodlon â'r ysgol yn gyffredinol;
- bod yr addysgu'n dda a bod y staff yn disgwyl i'r plant weithio'n galed ac i wneud eu gorau;
- eu bod yn cael gwybodaeth gyson am gynnydd eu plant;
- bod eu plant yn hoffi'r ysgol ac yn gwneud cynnydd da;
- bod eu plant yn ddiogel yn yr ysgol ac yn cael cymorth i ymgartrefu'n dda;
- bod plant yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol;
- bod eu plant yn cael eu hannog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd;
- eu bod yn teimlo'n esmwyth ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r ysgol, gwneud awgrymiadau neu nodi problem;
- bod yr ysgol yn helpu'r plant i ddod yn fwy aeddfed ac i ysgwyddo cyfrifoldeb a bod eu plant wedi eu paratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf;
- disgyblion yn ymddwyn yn dda; a
- bod staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch;

ac mae bron pob un yn credu bod:

- y gwaith cartref sy'n cael ei roi yn adeiladu'n dda ar yr hyn a ddysgir yn yr ysgol;
- amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau; a'u bod
- yn deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion.

**Ymatebion i'r holiadur i ddysgwyr**

Derbyniwyd 15 o ymatebion gan ddisgyblion cyfnod allweddol 2 ac roeddynt yn unfrydol:

- eu bod yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol;
- bod plant yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio;
- eu bod yn gwybod beth i'w wneud a gyda phwy i siarad os yn gweld y gwaith yn anodd neu yn poeni neu ofidio am rhywbeth;
- bod yr athrawon ac oedolion eraill yn yr ysgol yn eu helpu i ddysgu a gwneud cynnydd;
- bod yr ysgol yn eu dysgu sut i aros yn iach a bod llawer o gyfleoedd yn yr ysgol i gael ymarfer corff yn rheolaidd; a
- bod ganddynt ddigon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud eu gwaith.

Mae bron pob un yn credu bod:

- yr ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio;
- bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio; a bod
- gwaith cartref yn helpu iddynt ddeall a gwella eu gwaith yn yr ysgol.

Mae ychydig yn credu nad:

- ydynt yn gwneud yn dda yn yr ysgol.

## Atodiad 2

**Y tîm arolygu**

| | |
|---|---|
| Maldwyn Pryse | Arolygydd Cofnodol |
| Clive Phillips | Arolygydd Tîm |
| Gwynoro Jones | Arolygydd Lleyg |
| Anwen Griffith | Arolygydd Cymheiriaid |
| Rhys Williams | Enwebai'r Ysgol |

**Copïau o'r adroddiad**

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

O dan Ddeddf Addysg 2005, rhaid i'r ysgol ddarparu copïau o'r adroddiad am ddim i gategorïau penodol o bobl. Gellir codi tâl nad yw'n fwy na chost atgynhyrchu ar bobl eraill sy'n gofyn am gopi o'r adroddiad. Os yw ar gael, mae'r adroddiad data i'w weld ar ein gwefan ochr yn ochr â'r adroddiad hwn.

**Grwpiau blwyddyn a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac AALlau.

Mae'r term 'Derbyn' (D) yn cyfeirio at grŵp blwyddyn o ddisgyblion mewn ysgol gynradd sy'n cyrraedd 5 oed yn ystod y flwyddyn academaidd. Mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp blwyddyn o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, ac ati. Blwyddyn 13 yw'r grŵp o fyfyrwyr sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | D | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r pedwar cyfnod allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod allweddol 1 | Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |